

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Albany Surgery, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	21
4. Y camau nesaf .....	25
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	26
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	27
Atodiad C - Cynllun gwella .....	28

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Albany Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 01 Ionawr 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr gofal iechyd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd rheolwyr y practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Darparodd cleifion adborth cadarnhaol am y practis ar y cyfan, gan roi gwybod am safonau gofal da, glendid a mesurau atal a rheoli heintiau.

Gwelwyd ystod o ddeunyddiau hybu iechyd ar safle'r practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddau'r wefan i roi mwy o wybodaeth. Roedd angen diweddaru polisi mynediad y practis hefyd er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod yn llawn am y gwasanaethau sydd ar gael yn y practis. Gallai cymorth iaith ac arwyddbyst hefyd gael eu gwella wrth y dderbynfa.

Roedd safle'r practis yn hygyrch i bobl ag anghenion amrywiol ac roedd adborth cadarnhaol mewn perthynas ag amgylchedd y practis wedi dod i law gan fyfyrwyr anabl a oedd wedi bod ar leoliad yn y gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau'r arwyddion i 111 pwyso 2 a gwasanaethau eraill drwy wefan y practis a llywio gofal.
- Hyrwyddo'r cynnig o ystafell ar wahân ar gyfer trafodaethau cyfrinachol a hunan-gofrestru wrth y dderbynfa a datblygu'r cymorth iaith sydd ar gael y tu allan i ymgynghoriadau.
- Rhoi gweithdrefn glir ar waith i drafod llythyrau brys sy'n dod i law i sicrhau y caiff llythyrau eu cadw'n ddiogel ac y cânt ymateb effeithlon iddynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd taclus ar y cyfan oedd yn cynnig cyfleusterau hylendid dwylo addas i gleifion a staff
- Roedd model cyntaf brysbennu yn sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu cynnig yn unol â'r angen clinigol a aseswyd.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd systemau rheoli meddyginiaethau addas ar waith a gwelwyd arfer canmoladwy mewn perthynas â dogfennu casgliadau presgripsiwn. Fodd bynnag, roedd angen cofnodi pan oedd padiau presgripsiwn yn cael eu rhoi yn y cwpwrdd storio a'u tynnu allan er diogelwch. Roedd cofnodion cynhwysfawr o wiriadau cyfarpar meddygol a gwasanaethu ar gael a gwelwyd bod dyfeisiau mewn cyflwr da.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r person diogelu dynodedig ar gyfer y practis ac roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu addas. Fodd bynnag, roedd angen canllawiau cliriach i fod yn sail i gofnodi pryderon diogelu a sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill.

Roedd y practis yn gweithio fel rhan o glwstwr gyda'r nod o ddarparu gofal o ansawdd i gleifion o fewn y lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau trefniadau diogelwch tân gan gynnwys hyfforddi swyddogion tân a sicrhau bod yr arwyddion sy'n nodi lleoliadau nwyon meddygol yn gywir
- Sicrhau bod amserlenni glanhau yn fanwl ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.
- Sicrhau bod gwiriadau wythnosol o gyfarpar a chyffuriau brys yn cynnwys edrych ar ddyddiadau defnyddio er mwyn gallu ailarchebu eitemau cyn i'r dyddiadau fynd heibio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyfathrebu yn y clwstwr gyda'r nod o osgoi derbyniadau ysbyty a sicrhau gofal clinigol o ansawdd
- Ystyriwyd bod prosesau mewn perthynas ag ardystio marwolaethau yn gadarn gyda marwoldeb a marwolaethau annisgwyl yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd clinigol neu bartneriaeth.
- Roedd hyblygrwydd yn y ffordd yr oedd nyrsys practis yn cynnig eu hapwyntiadau yn cefnogi effeithlonrwydd.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr arweinyddiaeth yn amlwg a dywedodd y staff eu bod yn glir o ran y llinellau adrodd, eu bod yn gallu siarad i godi pryderon neu roi awgrymiadau ac roeddent yn teimlo bod y practis yn darparu gweithle cadarnhaol ar y cyfan. Cyflawnodd y staff arfarniadau a chawsant y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd clinigol y practis yn amlbroffesiynol, a oedd yn cyfyngu ar y cyfle am ddysgu ar y cyd, ac roedd rhai cyfarfodydd amlldisgyblaethol gydag ymarferwyr y tu allan i'r practis wedi'u lleihau.

Roedd rhaglenni sefydlu penodol i'r rôl i ddechreuwr newydd a datganiad clir o rwymedigaethau proffesiynol a hyfforddiant gorfodol a sut roedd y rhain yn cael eu cynnal ar goll. Roedd hefyd angen adolygu polisiâu a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn darparu canllawiau gweithredol cynhwysfawr. Byddai adolygiad blynyddol o adborth, pryderon a chwynion hefyd yn ymgorffori gwelliant o ansawdd yn y practis

a byddai rhannu themâu gyda chleifion yn cynyddu tryloywder o ran adborth a phrosesau cwyno a dysgu'r practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau holl bolisiau a gweithdrefnau'r practis i sicrhau eu bod yn cynnwys digon o fanylion i staff ac eglurder o ran rhwymedigaethau proffesiynol a hyfforddiant gorfodol
- Adolygu aelodaeth o gyfarfodydd clinigol y practis ac amllder y cyfarfodydd tîm amlldisgyblaethol ehangach er mwyn cryfhau'r cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd a gofal holistaidd.
- Ymgorffori gwelliant o ansawdd drwy adolygu adborth yn flynyddol, pryderon a chwynion a rhannu themâu gyda chleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cafodd mesurau perfformiad yn adrodd ar weithgarwch meddygon teulu eu cwblhau yn fisol drwy broses flynyddol y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella
- Roedd arweinwyr yn amlwg ac yn gefnogol ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

At ei gilydd, nododd yr ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo bod y practis yn lân ac roedd cytundeb lefel uchel fod mesurau atal a rheoli heintiau ar gael ac yn cael eu rhoi ar waith.

Adroddodd yr holl ymatebwyr eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu gwrandio arnynt yn ystod ymgynghoriadau a'u bod wedi cael gwybodaeth i'w cefnogi i fynd ar drywydd ffordd o fyw iach. Fodd bynnag, roedd barnau mwy cymysg mewn perthynas â pha mor dda roedd gwybodaeth glinigol yn cael ei hesbonio a faint o ran yr oedd cleifion yn ei theimlo o ran penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Roedd un person yn teimlo nad oedd yn gallu siarad yn y dderbynfa heb i rywun arall ei glywed. Fodd bynnag, ystyriwyd bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu gwarchod yn ystod ymgynghoriadau.

Dywedodd rhai cleifion eu bod yn ymwybodol o fecanweithiau adborth i'r practis, gan gynnwys arolygon cleifion a phrosesau cwyno. Fodd bynnag, nid oedd cleifion eraill yn ymwybodol ohonynt.

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion a'u gofalwyr yn ardal aros y practis. Fodd bynnag, roedd diffyg hybu iechyd a gwybodaeth am wasanaethau cymorth ar wefan y practis. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â chymorth iechyd meddwl brys trwy GIG 111 pwyso 2 ar goll yn benodol.

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion ar safle a gwefan y practis a'i bod yn cynnwys arwyddbyst at gymorth iechyd meddwl brys trwy GIG 111 pwyso 2.

Roedd safle'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion sy'n ychwanegol at wasanaeth meddygon teulu a nyrsio craidd. Roedd y practis wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gwblhau ei raglen flynyddol i frechu rhag y fflw. Roedd mentrau clwstwr ar waith hefyd i gefnogi mynediad cleifion i

gymorth trydydd sector. Dywedwyd wrthym fod staff dderbynfa'r practis wedi'u hyfforddi mewn llywio gofal a'u bod yn ymwybodol pryd i gyfeirio cleifion i ffwrdd o ofal sylfaenol i wasanaethau brys. Fodd bynnag, gwelsom lwybrau a pholisiau cyfyngedig i gefnogi staff anghlinigol wrth gyfeirio cleifion yn amserol at ffynonellau cymorth priodol eraill. Roedd staff anghlinigol hefyd heb gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a fyddai'n cefnogi'r rôl llywio gofal.

**Dylai'r practis alluogi staff ymhellach drwy bolisiau, llwybrau a hyfforddiant addas i gyfeirio cleifion at wasanaethau sydd ar gael gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol a ffynonellau gofal a chymorth ehangach.**

Roedd prosesau addas ar waith i fynd ar drywydd cleifion a oedd heb fynychu'r feddygfa neu apwyntiadau iechyd eraill a sicrhau bod clinigwyr perthnasol yn cael gwybod.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Gwelsom fod y cleifion yn cael lefel briodol o breifatrwydd drwy gydol eu taith fel claf. Roedd mesurau ar waith i warchod cyfrinachedd y claf wrth y dderbynfa ac mewn ystafelloedd ymgynghori. Fodd bynnag, cynghorir y feddygfa i hyrwyddo'n well i bobl bod ystafell ar wahân ar gael ar gyfer trafodaethau cyfrinachol â staff y dderbynfa neu fod opsiwn ar gael i hunan-gofrestru ar sgrin.

**Dylai'r practis roi gwybod yn well i'r cleifion y gallant ddefnyddio sgrin i gofrestru eu bod wedi cyrraedd neu fod ystafell ar wahân ar gael ar gyfer trafodaethau manylach â staff y dderbynfa pe baent yn dymuno eu defnyddio i gadw cyfrinachedd.**

Roedd ystafell dawel i ffwrdd o'r brif ardal aros ar gael i gefnogi cleifion yr oedd angen hyn arnynt.

Roedd polisi hebryngwyr ar waith ac roedd hysbysiadau sy'n cynnig y gwasanaeth hwn i gleifion ar gael yn y dderbynfa ac mewn ystafelloedd clinigol. Gwnaethom nodi mai nifer cyfyngedig o ddynion oedd ar gael i hebrwng cleifion.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Roedd y practis yn gweithredu model cyntaf brysbennu gyda'r cyfleuster i drefnu apwyntiadau brys ar yr un diwrnod neu apwyntiadau uwch fel y rhai mwyaf priodol. Gellir cynnig ymweliadau gan feddygon teulu â chartrefi os caiff hynny ei nodi drwy frysennu clinigol. Roedd yr holl waith brysbennu'n cael ei gwblhau gan feddygon teulu. Roedd Canolfan Gofal Sylfaenol Brys y bwrdd iechyd hefyd wedi'i

lleoli gerllaw a byddai'r cleifion yn cael eu cyngori i fynd yno pe bai mwy o gleifion na chapasiti brys Meddygfa Albany Surgery.

Gallai'r cleifion gysylltu â'r feddygfa dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Roedd gwybodaeth am Ap y GIG hefyd wedi'i darparu ar wefan y practis ac roedd gan y practis gynlluniau i ddatblygu'r wefan ymhellach i gynnwys ffurflenni gofyn am apwyntiad. Roedd neges peiriant ateb y practis hefyd yn y broses o gael ei diweddarau i sgrïpt manylach i gefnogi mynediad amserol a theg i ofal iechyd.

Roedd polisi mynediad ar waith ond roedd angen diweddarau hwn i gynnwys pob dull cysylltu, dewis o apwyntiadau a gwybodaeth am fynediad i wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r feddygfa. Yna, gallai hyn gael ei ddarparu i gleifion yn yr ardal aros ac ar wefan y practis i sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth lawn.

**Dylai'r practis sicrhau bod y polisi mynediad yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a sicrhau ei fod ar gael i gleifion ar safle'r practis ac ar wefan y practis.**

Roedd yr holl ymatebwyr i arolwg cleifion AGIC yn ymwybodol sut i gael gafael ar ofal iechyd y tu allan i oriau agor y practis os byddai angen iddynt ei gael. Fodd bynnag, roedd lefelau boddhad cymysg o ran amseroedd agor y practis a'r nifer o apwyntiadau oedd ar gael ac amser y rheini, gan gynnwys rhai ar gyfer pryderon iechyd parhaus.

Dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn dangos symptomau o argyfwng iechyd meddwl yn cael eu cyfeirio i 111 pwyso 2 neu'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl lleol perthnasol a fyddai'n ymateb ar yr un diwrnod fel arfer. Byddai'r practis yn cael gwybod pan na allai'r gwasanaethau iechyd meddwl ymateb er mwyn gallu ailgyfeirio'r cleifion i'r Adran Achosion Brys er mwyn eu cadw'n ddiogel.

Roedd cleifion oedd yn dangos symptomau seicolegol nad ydynt yn rhai brys yn cael eu cyfeirio at wasanaethau trydydd sector.

Roedd y cyfathrebu rhwng y practis a'r gwasanaethau iechyd meddwl yn sicrhau bod clinigwyr perthnasol yn parhau i gael gwybod am anghenion a thriniaethau cleifion er mwyn rhoi goruchwyliaeth glinigol a pharhad gofal.

Cawsom wybod fod rôl ymarferydd gofal iechyd meddwl y clwstwr gofal sylfaenol wedi dod i ben yn ddiweddar yn sgil cyfyngiadau o ran adnoddau. Ystyriwyd bod diwedd y rôl hon yn rhwystr i'r practis wrth ymateb yn gadarn i'r galw mawr am wasanaethau iechyd meddwl gan y boblogaeth o gleifion, yr oedd nifer ohonynt yn

geiswyr lloches yn ôl pob son ac mae'n debygol y byddai angen gofal wedi'i lywio gan drawma arnynt.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod gwybodaeth am y practis wedi'i harddangos yn ardal aros y cleifion. Roedd rhywfaint o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddariadau i sicrhau bod hon yn fanwl ac yn gywir. Cafodd newidiadau eu rhoi ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd cofnodion y cleifion a'r llythyrau y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod llawer iawn o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar gleifion yn cael eu darparu i gleifion a bod cyfathrebu â gwasanaethau eraill yn foddhaol. Roedd clinigwyr yn cymryd cyfrifoldeb am wneud atgyfeiriadau, archebu profion a throsglwyddo canlyniadau i gleifion a byddent yn adolygu ac yn gweithredu ar unrhyw lythyrau neu negeseuon sy'n dod i law mewn perthynas â chleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod y broses o gadw llythyrau brys yn ddiogel yn cael ei chyfaddawdu gan nad oedd llythyrau'n cael eu sganio i fersiwn electronig cyn eu gweithredu ac y byddai dirprwyo i staff gweinyddol er mwyn ymdrin â llythyrau brys yn gwella effeithlonrwydd.

**Dylai'r practis ddatblygu gweithdrefn glir ar gyfer trafod llythyrau brys sy'n dod i law i sicrhau y caiff llythyrau eu cadw'n ddiogel ac y cânt ymateb effeithlon iddynt.**

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfran uchel o restr cleifion y practis yn siarad Cymraeg na Saesneg fel mamiaith, ac felly nid oedd y llinell iaith honno'n cael ei defnyddio'n aml yn ystod ymgynghoriadau â chleifion. Byddai apwyntiadau dwbl yn cael eu trefnu pan oedd staff y dderbynfa'n nodi bod angen defnyddio'r llinell iaith. Fodd bynnag, gan nad oedd dewis iaith yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion, gallai'r angen am linell iaith gael ei golli. Yn ogystal, nid oedd y llinell iaith ar gael i'r dderbynfa, a allai fod yn rhwystr mewn sgysiau cychwynnol â chleifion, er enghraifft, pan oedd cleifion yn cofrestru â'r practis neu'n trefnu apwyntiadau. Roedd sgrin hunan-gofrestru gydag ystod eang o ddewisiadau iaith ar gael i gleifion er mwyn hwyluso'r broses cofrestru am apwyntiad.

**Dylai'r practis wneud y canlynol:**

- **datblygu'r cymorth iaith sydd ar gael ar gyfer sgysiau rhwng cleifion a staff gweinyddol y tu allan i ymgynghoriadau**
- **sicrhau bod dewis iaith yn cael ei nodi'n rheolaidd yng nghofnodion y cleifion fel bod cymorth iaith priodol yn cael ei nodi a'i drefnu.**

Cafwyd arwyddion 'laith Gwaith' ar ddiwrnod yr arolygiad i sicrhau bod y practis yn rhoi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith.

### **Hawliau a chydraddoldeb**

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a'i fod yn gysylltiedig â dogfennau eraill er mwyn diogelu hawliau a chydraddoldeb drwy brosesau sy'n wynebu cleifion a staff. Roedd polisi cydsynio cadarn gan y practis a oedd yn sicrhau bod hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal drwy gydsyniad ar sail gwybodaeth neu gymorth lles pennaf os bydd clinigydd yn asesu nad oes gan glaf ddigon o alluedd i wneud penderfyniadau ar ofal. Rhoddwyd gofal i gleifion a oedd yn chwilio am wasanaethau arbenigol ar rywedd a gallai rhagenwau ac enwau gael eu diweddarau er mwyn gallu cyfathrebu mewn modd priodol.

Roedd y practis ar lawr cyntaf yr adeilad ac roedd lifft a grisiau ar gael i gleifion allu ei gyrraedd. Roedd y dderbynfa a'r desgiau hunan-gofrestru yn addas i gleifion fynd atynt ar eu traed neu mewn cadair, ac roedd toiledau hygyrch, seddau addas a chyfleusterau gofal babanod hefyd ar gael i gefnogi cleifion ag anghenion amrywiol. Roedd y lloriau'n sownd ac roedd y mynediad i bob ystafell y tu mewn i'r practis yn wastad.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y gweithlu'n eu cefnogi a bod modd manteisio ar addasiadau rhesymol os oedd angen. Er enghraifft, roedd desg y gellir addasu ei uchder ar gael os oedd angen i'r staff ei defnyddio. Dywedwyd wrthym fod adborth cadarnhaol mewn perthynas ag amgylchedd y practis wedi dod i law gan fyfyrwyr anabl a oedd wedi bod ar leoliad yn y gwasanaeth.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Gwelwyd bod y practis yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da ar y cyfan. Roedd systemau botwm brys ar gael i'r staff alw am gymorth cyflym os oedd angen. Roedd cyfarpar diogelwch tân, hysbysiadau gweithredu a llwybrau dianc ar waith. Fodd bynnag, nid oedd swyddogion tân hyfforddedig ar gael ac nid oedd cynllun llawr y practis a'r arwyddion rhybudd yn dangos lleoliadau'r nwyon meddygol yn gywir.

**Dylai'r practis sicrhau bod yr holl fesurau diogelwch tân ar waith i gefnogi cleifion, staff a phersonél y gwasanaeth tân mewn achos o dân.**

Roedd Cynllun Parhad Busnes ar gael i bob aelod o'r staff gyfeirio ato fel y bo'n ofynnol. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau hyn er mwyn cynnwys y risg i'r bartneriaeth.

**Dylai'r practis adolygu a diweddarau'r Cynllun Parhad Busnes.**

Roedd prosesau clir ar waith i sicrhau bod digon o staff ar gael ac roedd y defnydd o fframwaith cynaliadwyedd y bwrdd iechyd ac adroddiadau uwchgyfeirio'n cael eu datblygu.

Rheolwyr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn hysbysiadau ynghylch diogelwch a'u trosglwyddo i'r aelodau perthnasol o staff. Byddai Rheolwr y Practis yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau a byddai Digwyddiadau Andwyol Sylweddol a oedd wedi digwydd yn y practis yn cael eu dadansoddi a'u trafod yng nghyfarfodydd y partneriaid neu mewn digwyddiadau dysgu ychwanegol gan ddefnyddio templed safonol i arwain myfyrdod a chynlluniau gweithredu. Fodd bynnag, nid oedd polisi ffurfiol ar waith i fod yn sail i'r broses hon.

**Dylai'r practis greu polisi Digwyddiadau o Bwys addas a'i roi ar waith.**

Roedd y staff yn glir ynghylch y disgwyliadau iddynt roi gwybod eu bod yn ddiogel ar ôl gadael cartrefi cleifion.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi Atal a Rheoli Heintiau'r practis ar waith ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff. Fodd bynnag, dim ond amserlenni glanhau cyffredinol a welwyd nad

oeddent yn nodi bod angen glanhau cyfarpar na pha gynhyrchion glanhau y dylid eu defnyddio at ddibenion gwahanol.

**Dylai'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau yn ddigon manwl i gefnogi'r gwaith o lanhau ardaloedd clinigol yn effeithiol.**

Roedd bylchau hefyd yn cael eu nodi yn safon y glanhau a storio'r cyfarpar glanhau:

- Gwelwyd llwch a chroniad cyffredinol mewn rhai ardaloedd lefel uchel ac isel drwy'r practis
- Roedd y mopiau wedi'u storio gyda phennau'r mopiau mewn bwcedi. Dylid storio'r rhain ar wahân

**Dylai'r practis sicrhau bod glanhau a storio cyfarpar glanhau yn cael eu cyflawni i safon gyson uchel.**

Ni welwyd taflenni data Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ar gyfer cynhyrchion glanhau neu gemegau eraill a ddefnyddir yn y practis.

**Dylai'r practis sicrhau bod taflenni data COSHH perthnasol ar gael i'r holl staff ar ddefnyddio a storio cemegau yn ddiogel yn y practis.**

Roedd ardal ynysu benodol ar gael i gleifion gyda symptomau clefydau heintus i aros am apwyntiadau i ffwrdd oddi wrth bobl eraill. Protocol y practis oedd y byddai staff clinigol yn glanhau'r ystafell hon yn drylwyr ar ôl iddi gael ei defnyddio.

Roedd cyfleusterau hylendid dwylo a chyfarpar diogelu personol ar gael i'r cleifion a'r staff. Sicraodd eitemau untro fod y cyfarpar clinigol yn ddi-haint.

Roedd y bwrdd iechyd wedi gwneud archwiliad atal a rheoli heintiau diweddar ac roedd y practis yn gweithio trwy gamau gweithredu gan gynnwys rhoi archwiliadau golchi dwylo a noeth o dan y penelin misol ar waith.

Roedd archwiliadau rheoli gwastraff misol yn cael eu cyflawni yn unol â pholisi'r practis. Dywedwyd wrthym fod ystod ehangach o finiau a bagiau'n cael eu trefnu ar gyfer categorïau gwastraff gwahanol. Roedd biniau offer miniog ar gael mewn ystafelloedd clinigol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y rhain yn cael eu llofnodi'n gyson wrth gydosod na'u cadw ar gau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

**Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefnau clir ar gael ar gyfer cydosod, defnyddio a chloi biniau offer miniog dros dro a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson i ddiogelu'r staff a'r cleifion mewn ardaloedd clinigol.**

Gwelsom bolisiau feirysau a gludir yn y gwaed a pholisiau nodwyddau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw siartiau llif nodwyddau ar gael yn yr ystafelloedd clinigol.

**Dylai'r practis arddangos siartiau llif nodwyddau er mwyn cefnogi staff clinigol i gymryd camau gweithredu pe byddent yn cael anaf a achosir gan nodwydd.**

Cynigiwyd brechiadau priodol i'r holl staff perthnasol er mwyn cynnal a hybu eu hiechyd eu hunain ac iechyd y cleifion a gwelwyd tystiolaeth o imiwnedd y staff clinigol rhag Hepatitis B. Roedd y staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau perthnasol.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu a'u rheoli'n ddiogel.

Roedd clercod presgripsiynu wedi'u hyfforddi i roi presgripsiynau rheolaidd. Roedd adolygiadau o feddyginiaethau'n cael eu cwblhau gan fferyllwyr, meddygon teulu a nyrsys ar gyfer meddyginiaethau diabetes. Roedd fferyllwyr a meddygon teulu yn goruchwyllo clercod presgripsiynu a nyrsys fel y bo'n ofynnol. Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg manylder yn y polisi presgripsiynu i roi cyfarwyddyd i staff ar brosesau a chymorth ac nid oedd cytundeb cwmpas ymarfer ffurfiol mewn perthynas â rôl y fferylllydd o fewn y practis ar gael.

**Dylai'r practis adolygu'r polisi presgripsiynu a'r cytundeb cwmpas ymarfer ar gyfer rôl y fferylllydd i sicrhau eglurder mewn perthynas â chyfrifoldebau, prosesau a chymorth presgripsiynu.**

Gwnaethom nodi y byddai nodyn yn cael ei roi yng nghofnodion y cleifion pan fydd presgripsiwn wedi'i gasglu. Ystyrir bod hyn yn arfer canmoladwy.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o pan oedd y padiau'n cael eu rhoi yn yr ardal storio a'u tynnu allan, a fyddai'n darparu llwybr archwilio o leoliadau er mwyn rhoi diogelwch ychwanegol.

**Dylai'r practis sicrhau bod cofnod i nodi pryd roedd y padiau presgripsiwn yn cael eu rhoi i mewn a'u tynnu allan o'r cwpwrdd.**

Gwnaethom edrych ar y cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir i reoli argyfyngau meddygol. Gwelwyd bod siartiau a oedd yn dangos gwiriadau wythnosol o eitemau brys wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y broses wirio a dogfennu yn cymell ymarferwyr i ystyried dyddiad defnyddio nwyddau traul.

**Dylai'r practis sicrhau bod gwiriadau wythnosol o gyfarpar a chyffuriau brys yn cynnwys edrych ar ddyddiadau defnyddio er mwyn gallu ailarchebu eitemau cyn i'r dyddiadau fynd heibio.**

Roedd dyddiadau defnyddio dyfeisiau llwybr anadlu Guedel o bob maint, masgiau nebweiddio i oedolion a phlant a thiwbiau ar gyfer peiriannau sugno cludadwy wedi mynd heibio. Roedd masgiau cyfredol ar gael ond nid oedd yr hen stoc wedi'i gwaredu a allai arwain ati'n cael ei defnyddio'n ddamweiniol. Roedd eitemau anaddas wedi'u gwaredu a rhai newydd wedi'u cael o stoc dros ben neu wedi'u hailarchebu ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Gwnaed y staff yn ymwybodol o leoliad yr eitemau brys drwy'r broses sefydlu staff. Fodd bynnag, gwelsom fod angen ailystyried y ffordd o storio cyfarpar a chyffuriau brys:

- Roedd yr eitemau brys yn cael eu storio mewn ardal glinigol, ac er mai prin yr oeddent yn cael eu defnyddio, byddent yn cael eu cloi er mwyn preifatrwydd i'w defnyddio ar gyfer ymgynghoriadau cleifion.
- Nid oedd cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio gyda'i gilydd, a fyddai'n rhwystro ymarferwyr rhag casglu eitemau yn gyflym mewn achos o argyfwng
- Nid oedd y broses o storio yn rhoi hyder nad oedd neb wedi ymyrryd â'r eitemau brys na'u symud rhwng gwiriadau wythnosol
- Roedd rhai arwyddion a oedd yn dangos lleoliad yr eitemau brys yn anghywir.

**Dylai'r practis sicrhau y caiff cyfarpar a chyffuriau brys eu cadw gyda'i gilydd mewn lleoliad hygyrch gydag arwyddbyst cywir, mewn storfa â sêl diogelwch arni.**

Roedd silindrau ocsigen ar gael i'w defnyddio yn y practis ac roeddent yn cael eu cynnal a'u cadw'n addas. Fodd bynnag, nid oedd silindrau'n cael eu cadw mewn stand diogelwch neu ddaliwr gwarchodol arall.

**Dylai'r practis sicrhau y caiff silindrau ocsigen eu cadw mewn stand diogelwch neu ddaliwr addas.**

Roedd y staff clinigol yn ymwybodol o ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel ac roedd hyfforddiant ffurfiol i gefnogi hyn ar waith. Roedd poster hefyd i'w weld i atgoffa'r staff i ddefnyddio'r silindr yn gywir.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu cadw yn y practis. Roedd rhestrau'n cael eu cadw o gyffuriau nas rheolir, nad ydynt yn rhai brys ar y safle ac roedd y cyffuriau hyn yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo neu'n cael eu storio'n addas

mewn oergell gyffuriau ddynodedig fel y bo'n ofynnol. Roedd tymereddau'r oergell yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u cofnodi â llaw. Roedd teclyn cofnodi data awtomatig wedi'i brynu i wella effeithlonrwydd ond roedd yn ddiffygiol pan gyrhaeddodd ac roedd yn cael ei newid er mwyn sicrhau y gellid parhau i gynnal cofnodion cywir. Nid oedd tymereddau allan o ystod wedi'u cofnodi. Roedd polisi eitemau y mae angen eu storio ar dymheredd cyson oer a siart lif hawdd ei deall ar gael i'r staff eu dilyn mewn achos o dorri'r gadwyn oer. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau hyn yn cyfateb gan fod diffyg manylion yn y polisi.

### **Dylai'r practis adolygu'r polisi eitemau y mae angen eu storio ar dymheredd cyson oer a sicrhau bod y manylion yn cyfateb i'r siart lif.**

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu cyffuriau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio neu a oedd wedi'u defnyddio'n rhannol yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod y cynllun Cerdyn Melyn yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod am unrhyw effeithiau niweidiol o feddyginiaethau a bresgripsiynwyd neu a roddwyd gan y practis. Byddai unrhyw ddigwyddiadau neu wallau mewn meddyginiaeth yn cael eu defnyddio i hysbysu anghenion hyfforddi'r ymarferwyr. Roedd hyfforddiant mewn perthynas â meddyginiaethau a phresgripsiynu hefyd ar gael i'r staff ar gais neu fel y nodwyd drwy arfarniadau.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y staff yn gwybod pwy oedd person diogelu dynodedig y practis ac am y prosesau er mwyn cysylltu â chleifion a oedd wedi methu apwyntiadau neu yr oedd y practis wedi cael gwybod eu bod wedi mynychu adrannau brys ar sawl achlysur. Roedd cleifion a oedd yn rhoi gwybod am gam-drin domestig hefyd yn cael eu cyfeirio at sefydliadau priodol.

Roedd polisi diogelu a Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff eu darllen. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau clir i rannu gwybodaeth am ddiogelu gydag asiantaethau perthnasol eraill, er enghraifft ymwelwyr iechyd. Roedd y ddogfennaeth am ddiogelu yng nghofnodion y cleifion hefyd yn gofyn am welliant i sicrhau y gallai cleifion sy'n wynebu risg gael eu hadnabod a'u cefnogi'n rhwydd:

- Nid oedd modd adnabod Plant sy'n Derbyn Gofal yn hawdd o gofnodion y cleifion
- Nid oes cysylltiadau cartref pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant wedi'u hamlygu drwy ddefnyddio baneri digidol neu godau clinigol yn y system cofnodion clinigol.
- Nid oedd rhestr wedi'i choladu ar gael o blant a oedd wedi'u cofrestru â'r practis ac ar y gofrestru amddiffyn plant nac o gleifion eraill yr oedd

pryderon diogelu wedi'u nodi ar eu cyfer, a oedd yn rhwystro gwaith monitro arferol ac adolygiadau amlddisgyblaethol o'r cleifion agored i niwed hyn.

**Rhaid i'r practis gynnal adolygiad cynhwysfawr o'u trefniadau diogelu yn unol â'r safonau cenedlaethol.**

Roedd hyfforddiant diogelu priodol ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwelsom fod y cyfrifoldeb am ddyfeisiau a chyfarpar meddygol wedi'i ddirprwyo'n briodol a bod contractau cynnal a chadw addas ar waith. Roedd cofnodion cynhwysfawr o'r holl wiriadau a gwaith gwasanaethu ar gael a gwelwyd bod dyfeisiau mewn cyflwr da.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Roedd gweithwyr proffesiynol y practis yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac i sicrhau ymwybyddiaeth o ganllawiau arfer gorau.

Roedd y practis hefyd yn ymgysylltu â'r clwstwr i wella gofal i gleifion trwy drafodaethau, arloesi a hyfforddiant ar y cyd. Roedd cyfarfodydd clwstwr amlddisgyblaethol yn hyrwyddo ffocws ar osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty drwy alluogi'r cleifion hynny i gael eu hanghenion iechyd wedi'u diwallu yn y gymuned.

Ystyriwyd bod y prosesau mewn perthynas ag ardystio marwolaethau yn briodol. Roedd marwoldeb a marwolaethau annisgwyl yn cael eu trafod gan feddygon teulu mewn cyfarfodydd clinigol neu bartneriaeth.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar sampl o ddeg cofnod cleifion electronig a oedd yn cael eu cadw o fewn system TG ddiogel. Roedd cofnodion papur oedd yn cael eu cadw ar y safle hefyd yn ddiogel ac yn drefnus i sicrhau bod modd gweld clinigydd yn hawdd yn ôl yr angen.

Ar y cyfan, ystyriwyd bod y cofnodion a adolygwyd o safon uchel o ran cyflwyno canfyddiadau clinigol a rhesymeg dros wneud penderfyniadau yn naratif y claf, gan ddarparu eglurder i gefnogi parhad gofal. Roedd y cofnodion yn dangos bod cleifion â chyflyrau hirdymor yn cael eu monitro'n briodol. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfradd isel iawn o feddyginiaethau'n cael eu cysylltu â chod problem iechyd.

**Dylai'r practis sicrhau y caiff meddyginiaeth a chodau problemau iechyd eu cysylltu'n rheolaidd yng nghofnodion y cleifion.**

Roedd dogfennaeth ynghylch cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau personol hefyd ar goll yn aml, a oedd yn awgrymu nad oedd y polisi hebryngwyr yn cael ei roi ar waith yn gyson gan gyflwyno risg i gleifion ac ymarferwyr.

**Dylai'r practis sicrhau bod y polisi hebryngwyr yn cael ei roi ar waith yn llawn a bod y cynnig o hebryngwr yn cael ei ddogfennu mewn perthynas â phob archwiliad personol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.**

Gwelwyd tystiolaeth o grynhoi nodiadau ansawdd uchel. Fodd bynnag, er i'r practis ddweud wrthym eu bod yn cyflogi myfyrwyr meddygol yn aml i gynhyrchu crynodebau ar gyfer y cofnod clinigol, nid oedd archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod cysondeb yn cael ei gyflawni yn ansawdd y crynodebau.

**Dylai'r practis gynnal archwiliadau blynyddol o ansawdd nodiadau cryno.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Gwelsom fod yr hyblygrwydd yn y ffordd yr oedd nyrsys practis yn cynnig apwyntiadau yn cefnogi proses darparu gwasanaeth effeithlon yn y practis.

Nod gwasanaethau clwstwr fel ffisiotherapi, fferyllwyr cymunedol, cysylltwyr cymunedol a nyrsys eiddilwch yw sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal cywir ar yr amser cywir. Rhoddwyd gwybod am bryderon yn ymwneud â'r amseroedd aros am ambiwlans, o gofio bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlan Cymru wedi'i dynodi'n lle diogel. Cynghorir y practis i sicrhau bod y pryderon hyn yn cael eu huwchgyfeirio i'w tîm gofal sylfaenol yn y bwrdd iechyd a thrwy ddefnyddio Datix, fel y bo'n ofynnol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC yn cytuno'n gryf eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael ei roi i'r cleifion, mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis, ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir iddynt eu hunain, eu ffrindiau a'u teulu.

At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod rheolwyr a phartneriaid y practis yn darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy. Roedd y cyfrifoldeb am feysydd penodol darparu gwasanaethau a gwella ansawdd, er enghraifft, atal a rheoli heintiau, brechiadau a chwynion, wedi'i ddirprwyo'n briodol i aelodau gwahanol o'r staff yr oedd aelodau'r tîm yn ymwybodol ohonynt.

Roedd y trafodaethau â'r staff yn nodi tîm sefydlog, cadarnhaol ac wedi'i gefnogi'n dda a oedd yn glir ynghylch eu linellau adrodd ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus i fynd at y tîm rheoli gydag unrhyw faterion neu bryderon. Gallai'r staff gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau'r practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen diweddarau sawl polisi i sicrhau eu bod yn cynnwys holl fanylion perthnasol y staff fel y bo'n ofynnol.

**Dylai'r practis adolygu a diweddarau holl bolisiau a gweithdrefnau'r practis yn rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i arwain staff.**

Byddai cyfarfodydd meddyg teulu a nyrs practis ar wahân yn galluogi ar gyfer trafod diweddariadau clinigol. Fodd bynnag, roedd y cyfle am ddysgu a datblygiad clinigol ar draws grwpiau proffesiynol yn gyfyngedig gan nad oedd meddygon teulu a nyrsys yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd.

**Dylai'r practis drefnu cyfarfodydd clinigol amlbroffesiynol er mwyn gallu rhannu dysgu a datblygiad ar draws grwpiau proffesiynol.**

Roedd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith partneriaid yn ystyried materion ehangach y practis ac roedd y staff yn cael gwybodaeth berthnasol o gwmpas y systemau anfon negeseuon neu ddiweddariadau llafar hyn.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi'u galluogi i ddarparu gwasanaeth o safon i'r cleifion. Roedd y llwythi gwaith oedd yn cael eu dyrannu yn unol â disgwyliadau a maes ymarfer y swydd ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth a chefnogi ei gilydd fel y bo angen. Roedd rheolwyr newydd y practis wedi adolygu hyfforddiant ac arfarniadau staff yn ddiweddar ac roeddent yn bwriadu parhau i fonitro'r cymysgedd sgiliau, cymwyseddau a datblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y practis yn parhau i allu darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i'r boblogaeth leol. Roedd ffeiliau'r staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys tystiolaeth gyfredol o rwymedigaethau proffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd datganiad clir gan y practis i nodi sut roedd rhwymedigaethau proffesiynol yn cael eu cynnal na gosod y disgwyliadau hyfforddiant gorfodol ar gyfer grwpiau gwahanol o staff.

Dylai'r practis greu polisiau a'u rhoi ar waith i sicrhau'r canlynol:

- **Bod hunanddatganiad o gymeriad da y staff yn cael ei gwblhau yn flynyddol**
- **Bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ffurfiol yn cael eu cwblhau ar adegau wedi'u penderfynu ymlaen llaw**
- **Caiff gofynion hyfforddiant ar gyfer grwpiau o staff eu diffinio'n glir ar sail disgwyliadau cyrff cofrestru proffesiynol a safonau'r GIG.**

Roedd polisi recriwtio a rhestr wirio cyn cyflogaeth ar waith a darparwyd pecyn sefydlu i dynnu sylw at bolisiau a gweithdrefnau i aelodau newydd o staff yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd rhaglenni sefydlu penodol i swyddi wedi'u datblygu.

Dylai'r practis ddatblygu rhaglenni sefydlu penodol i swyddi er mwyn sicrhau y caiff staff newydd eu cefnogi'n llawn i ddatblygu yn eu rôl benodol.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod blwch awgrymiadau yn yr ardal aros i gasglu adborth gan gleifion a bod yr arolwg cenedlaethol o gleifion yn cael ei hyrwyddo hefyd.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynegi unrhyw bryderon a'u hannog i roi syniadau gerbron i wella'r practis. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn glir mewn perthynas â disgwiliadau staff a rheolwyr neu gyrff perthnasol i'r staff gysylltu â nhw pe bai angen iddynt godi pryderon yn allanol.

**Dylai'r practis ddiweddarau ei bolisi chwythu'r chwiban er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol i staff.**

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Roedd Swyddog Diogelu Data yn cael ei gyflogi trwy lechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd cyfrifoldebau staff y practis mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth wedi'u diffinio'n glir drwy bolisiâu a gweithdrefnau cadarn ac roedd hysbysiad preifatrwydd ar gael i gleifion.

Cafodd mesurau perfformiad yn adrodd ar weithgarwch meddygon teulu eu cwblhau yn fisol drwy broses flynyddol y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd gweithdrefn gwyno sy'n gyson â Gweithio i Wella y GIG ar gael i gleifion a staff a oedd yn glir ynghylch y broses i'w dilyn pe byddai claf yn mynegi pryder neu'n dymuno gwneud cwyn. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am weithio gyda phartneriaid y meddyg teulu i ymchwilio i unrhyw gwynion a dderbyniwyd. Roedd crynodeb o ymchwiliadau a chanlyniadau ar gael a oedd yn rhoi sicrwydd bod cwynion yn cael ymateb ac yn cael eu hymchwilio iddynt o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith o gwblhau adolygiad blynyddol o themâu cwyno ar gyfer dysgu a gwelliant y practis wedi'u hymgorffori eto.

**Dylai'r practis gynnal adolygiad blynyddol o themâu cwyno i gefnogi dysgu a gwelliant.**

Roedd gwybodaeth gadarn mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd hefyd ar gael yn y practis a byddai rheolwr y practis yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy system Datix ac yn cysylltu â'r bwrdd iechyd pe bai camgymeriadau a fu bron â digwydd neu niwed i gleifion.

Gwelsom agwedd gadarnhaol at weithgarwch dysgu a gwella parhaus yn y practis.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Gwelsom fod rheolwyr y practis yn ymwybodol o sut roedd y practis yn cyfrannu at y ddarpariaeth gofal iechyd ehangach drwy lwybrau perthnasol y bwrdd iechyd. Cyfarfodydd cydweithredol rheolaidd yn y gofal holistaidd a gefnogir gan y clwstwr, cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau a chymorth gan gymheiriaid. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod rhai gweithgareddau cyfarfod amlddisgyblaethol lleol mewn perthynas â gofal diabetig a gofal lliniarol wedi lleihau.

**Dylai'r practis adolygu ei gysylltiadau â gwasanaethau eraill a cheisio ailgyflwyno cyfathrebu rheolaidd lle y byddai hyn yn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol a gofal holistaidd.**

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd dyddiadau defnyddio dyfeisiau llwybr anadlu Guedel o bob maint, masgiau nebweiddio i oedolion a phlant a thiwbiau ar gyfer peiriannau sugno cludadwy wedi mynd heibio. Roedd masgiau cyfredol ar gael ond nid oedd yr hen stoc wedi'i gwaredu a allai arwain ati'n cael ei defnyddio'n ddamweiniol.	Roedd y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio mewn argyfwng, a oedd yn cael effaith ar ddiogelwch y cleifion.	Trafodwyd y mater gyda staff clinigol a rheoli perthnasol.	Cafwyd gwared ar eitemau anaddas a chafwyd rhai newydd o'r stoc dros ben neu cawsant eu hailarchebu ar ddiwrnod yr arolygiad.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Albany Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chanfuwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Albany Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Roedd y wybodaeth hybu iechyd yn brin ar wefan y practis, ac nid oedd GIG 111 pwysu 2 wedi'i gynnwys.	Dylai gwybodaeth hybu iechyd fod ar gael i gleifion ar safle a gwefan y practis a dylid cynnwys arwyddbyst at gymorth iechyd meddwl brys trwy GIG 111 pwysu 2.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Amserol	Mae gwefan newydd yn cael ei chynhyrchu a fydd yn cydymffurfio'n llwyr - amcangyfrifir y bydd yn fyw ar 1 Ebrill 2026.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	1 mis - 1 Ebrill
2.	Roedd tystiolaeth gyfyngedig o hyfforddiant, polisiau a llwybrau safonol ar waith i gefnogi staff anghlinigol wrth gyfeirio cleifion at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf	Byddai'r arlwy polisiau, llwybrau safonol a hyfforddiant yn cael ei ddatblygu i gefnogi staff anghlinigol gyda gwybodaeth.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Amserol	Rhodddwyd hyfforddiant gloywi CareNav i bob aelod o'r staff anghlinigol - crëwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol a chafodd ei rhannu â phob aelod o'r staff.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	priodol a ffynonellau cymorth ehangach.			Crëwyd siart lif a chafodd ei rhannu â phob aelod o'r staff. Ysgrifennwyd y polisi a chafodd ei rannu â phob aelod o'r staff		
3.	Roedd y gwaith o hyrwyddo hunan-gofrestru neu ystafell ar wahân ar gyfer sgysiau cyfrinachol rhwng y cleifion a staff y dderbynfa yn gyfyngedig.	Dylid rhoi mwy o wybodaeth i'r cleifion o ran yr opsiynau i ddefnyddio sgrin i gofrestru eu bod wedi cyrraedd neu fod ystafell ar wahân ar gael ar gyfer trafodaethau manylach â staff y dderbynfa pe baent yn dymuno eu defnyddio er mwyn cadw cyfrinachedd.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Rhodddwyd posteri ar wal yr ystafell aros.  Bydd hysbysiad yn cael ei ychwanegu at y wefan.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau  1 Ebrill 2026
4.	Roedd diffyg manylion yn y polisi mynediad.	Bydd y polisi mynediad yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a bydd ar gael i gleifion ar y safle ac ar y wefan.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Diweddarwyd y polisi mynediad ac fe'i rhodddwyd ar wal yr ystafell aros a bydd yn cael ei ychwanegu at y wefan	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
5.	Roedd cymorth iaith cyfyngedig ar gael ar gyfer sgysiau rhwng	Datblygu'r cymorth iaith sydd ar gael ar gyfer	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Yn	Defnyddio llinell iaith ar gyfer y dderbynfa - Crëwyd	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	cleifion a staff y dderbynfa.	sgyrsiau rhwng cleifion a staff y dderbynfa.	Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Gweithdrefn Weithredu Safonol ac fe'i rhannwyd â'r staff		
6.	Nid yw dewis iaith yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.	Dylai dewis iaith gael ei nodi'n rheolaidd yng nghofnodion y cleifion fel bod cymorth iaith priodol yn cael ei nodi a'i drefnu.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Ychwanegwyd at y cofrestrriad ar EMIS, sydd bellach yn faes gorfodol i'w gwblhau	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
7.	Nid yw pob mesur diogelwch tân ar waith, gan gynnwys arwyddion cywir i nwyon meddygol neu swyddogion tân hyfforddedig.	Roedd mesurau a rhagofalon diogelwch tân addas yn cael eu cymryd i ddiogelu'r cleifion a'r staff mewn achos o dân.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Mae arwyddion nwyon meddygol bellach yn eu lle.  Bydd hyfforddiant swyddog tân yn cael ei drefnu	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau  O fewn y 3 mis nesaf
8.	Amserlenni glanhau cyffredinol yn unig.	Roedd amserlenni glanhau yn ddigon manwl i gefnogi'r gwaith o lanhau ardaloedd clinigol yn effeithiol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Amserlenni glanhau wedi'u diweddarau	Marta Pietka Glanhau	Wedi'i gwblhau
9.	Nid yw'r gwaith glanhau a'r storfa cyfarpar glanhau wedi'u cwblhau i safon gyson uchel: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwelwyd llwch a chroniad</li> </ul>	Cwblhau'r gwaith glanhau a'r storfa cyfarpar glanhau i safon gyson uchel.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Cynhaliwyd cyfarfod â'r glanhawyr mewn perthynas â safon y glanhau.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	<p>cyffredinol mewn rhai ardaloedd lefel uchel ac isel drwy'r practis.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd y mopiau wedi'u storio gyda phennau'r mopiau mewn bwcedi.</li> </ul>			<p>Glanhau dyddiol yn ôl yr arfer.</p> <p>Ychwanegwyd: 1 sesiwn glanhau trylwyr y mis</p> <p>Bydd y glanhawyr yn sicrhau y bydd y deunyddiau glanhau'n cael eu storio'n briodol.</p>		
10.	<p>Ni ddefnyddiwyd unrhyw daflenni data Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) ar gyfer cynhyrchion glanhau neu gemegau eraill yn y practis.</p>	<p>Bydd taflenni data COSHH perthnasol ar gael i'r holl staff yn y practis.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel</p>	<p>Diweddarwyd ffolder COSHH</p>	<p>Nikita Lewis Prif Dderbynnnydd Marta Pietka Glanhau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
11.	<p>Ni chafodd biniau offer miniog eu llofnodi wrth gydodod na'u cadw ar gau rhwng pob defnydd</p>	<p>Bydd gweithdrefnau clir ar gyfer cydosod, defnyddio a chloi biniau offer miniog dros dro ar gael ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel</p>	<p>Crëwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol Gosod a Defnyddio Biniau Offer Miniog yn Ddiogel a chafodd ei rhannu â phob aelod o'r staff.</p>	<p>Jikke Perry Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

				Rhodddwyd posteri ar ddefnyddio biniau offer miniog ar waliau pob ystafell glinigol.		
12.	Ni ddangoswyd siartiau llif nodwyddau.	Bydd siartiau llif nodwyddau yn cael eu harddangos ochr yn ochr â'r holl finiau offer miniog.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel ac Amserol	Mae siartiau llif nodwyddau eisoes ar gael ym mhob ystafell a ddefnyddir ar gyfer fflebotomi ac imiwneiddiadau.  Mae'r siartiau llif nodwyddau bellach yn cael eu gosod ym mhob ystafell glinigol.	Jo Pearce Nyrs Arweiniol	Wedi'i gwblhau
13.	Nid oedd y cytundeb maes ymarfer ffurfiol mewn perthynas â rôl y fferylllydd yn y practis ar gael.	Bydd y cytundeb maes ymarfer ffurfiol mewn perthynas â rôl y fferylllydd yn y practis ar waith.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Mae maes ymarfer y fferylllydd locwm bellach ar waith.	Jikke Perry Rheolwr y Practis Dr Raluca Capatana Uwch-bartner	Wedi'i gwblhau
14.	Nid oedd cofnod i nodi pan oedd y padiau presgripsiwn yn cael eu	Dylid cofnodi pan fo presgripsiynau yn cael eu rhoi i mewn i'r cwpwrdd a'u tynnu allan ohono.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Crëwyd y cofnod ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio	Nikita Lewis Prif Dderbynydd	Wedi'i gwblhau

	rhoi i mewn i'r cwpwrdd a'u tynnu allan ohono.					
15.	Nid oedd gwiriadau wythnosol o gyfarpar a chyffuriau brys yn cynnwys adolygiadau o ddyddiadau defnyddio.	Bydd gwiriadau wythnosol o gyfarpar a chyffuriau brys yn cynnwys adolygiadau o ddyddiadau defnyddio er mwyn gallu ailarchebu eitemau cyn i'r dyddiadau defnyddio fynd heibio.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Bellach wedi'u hychwanegu a'u diweddarau ar y rhestr wirio	Jo Pearce Nyrs Arweiniol	Wedi'i gwblhau
16.	Roedd angen ailystyried y ffordd o storio cyfarpar a chyffuriau brys i sicrhau mynediad a diogelwch.	Bydd eitemau brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn lleoliad hygrych gydag arwyddion cywir ac mewn storfa â sêl diogelwch arni.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Bag â sêl diogelwch arno wedi'i archebu - dyddiad cludo tybiedig 24/02/2026 Mae'r cyfarpar eisoes mewn lleoliad gydag arwyddion da ac mewn lleoliad hygrych.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
17.	Nid oedd silindrau ocsigen yn cael eu cadw mewn stand diogelwch neu ddaliwr arall.	Dylid cadw silindrau ocsigen mewn stand diogelwch neu ddaliwr addas.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Wedi'i archebu - dyddiad cludo tybiedig 24/02/2026	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
18.	Nid oes trefniadau clir i gofnodi neu rannu gwybodaeth am ddiogelu gydag	Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau diogelu yn unol â chanllawiau cenedlaethol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Diweddarwyd y Gweithdrefn Weithredu Safonol a'r Polisi diogelu yn unol	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	asiantaethau perthnasol eraill.			â'r canllawiau cenedlaethol a chafodd ei rhannu â'r staff		
19.	Ni chaiff cysylltiadau meddyginiaeth a phroblemau iechyd eu cynnwys yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.	Bydd codau meddyginiaeth a phroblemau iechyd yn cael eu cysylltu yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel / Effeithiol / Effeithlon	Trafodwyd hyn â'r holl staff clinigol a bydd hyn bellach yn cael ei roi ar waith fel camau gweithredu arferol wrth ddiweddarau nodiadau'r cleifion.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
20.	Roedd y ddogfennaeth a oedd yn cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau personol ar goll yn aml, a oedd yn awgrymu nad yw'r cynnig yn cael ei roi o bosib a pheri risg i gleifion ac ymarferwyr.	Bod y cynnig i gleifion gael hebryngwr yn cael ei ddogfennu mewn perthynas â phob archwiliad personol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Anfonwyd e-bost at bob aelod o'r staff yn eu hatgoffa o bwysigrwydd codio presenoldeb hebryngwr yn gywir.  Cafodd rhestr o hebryngwyr hyfforddedig ei chynnwys yn yr e-bost.  Caiff hyn ei archwilio wrth symud ymlaen.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

21.	Ni wnaed unrhyw archwiliadau o ansawdd nodiadau cryno, ond caiff crynodebau eu cwblhau gan bersonél amrywiol, gan gynnwys myfyrwyr meddygol.	Archwiliadau rheolaidd o ansawdd nodiadau cryno i'w cwblhau.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Bellach ar waith	Dr Sofia Ahmad	Wedi'i gwblhau
22.	Mae'r cyfarfodydd clinigol yn benodol i'r proffesiwn yn unig gan gyfyngu ar y cyfleoedd i grwpiau proffesiynol ddysgu ar y cyd.	Cyfarfodydd clinigol amlbroffesiynol i'w rhoi ar waith.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Effeithiol	Mae'r cyfarfodydd yn cael eu hailgyflwyno nawr bod rheolwyr newydd ar waith.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Cyfarfod nesaf 17/3/2026
23.	Rhaglen sefydlu gyffredinol yn unig.	Rhaglenni sefydlu penodol i swyddi i'w datblygu er mwyn sicrhau bod staff newydd yn cael eu cefnogi'n llawn i ddatblygu yn eu rôl benodol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Effeithlon	Wrthi'n cael eu datblygu wrth i newidiadau yn y tîm gael eu cyflwyno'n raddol.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	30 Ebrill 2026
24.	Nid yw'r adolygiad blynyddol o themâu cwyno i sicrhau dysgu a gwelliant y practis wedi'i ymgorffori.	Bydd adolygiad blynyddol o themâu cwyno yn cael ei gynnal.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Effeithiol	Crëwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol a bydd cyfarfodydd yn aildechrau ym mis Ebrill 2026	Jikke Perry Rheolwr y Practis	

25.	Cafodd rhai gweithgareddau cyfarfodydd amlddisgyblaethol eu lleihau.	Bydd cysylltiadau â gwasanaethau eraill yn cael eu hadolygu gyda'r bwriad o ailgyflwyno cyfathrebu rheolaidd os byddai hyn yn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol a gofal holistaidd.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Effeithiol	Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaethol clwstwr bob pythefnos.  Bydd cyfarfodydd amlddisgyblaethol mewnol yn dechrau ym mis Ebrill 2026.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau  Ebrill 2026
26.	Roedd diffyg manylion perthnasol mewn sawl polisi a gweithdrefn i gefnogi staff yn llawn yn eu rolau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Parhad Busnes</li> <li>• Polisi rhagnodi</li> <li>• Polisi Eitemau y mae angen eu Storio ar Dymheredd Cyson Oer</li> <li>• Polisi chwythu'r chwiban.</li> </ul>	Adolygu a diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu cynnwys a'u hadnewyddu'n rheolaidd.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Effeithiol	Mae'r polisiau wrthi'n cael ei ddiweddarau.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Ebrill 2026

27.	<p>Mae rhai polisiau a gweithdrefnau ar goll:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y weithdrefn ar gyfer trafod llythyrau brys</li> <li>• Polisi digwyddiadau o bwys</li> <li>• Cynnal a chadw'r polisi rhwymedigaethau proffesiynol</li> <li>• Disgwyliadau hyfforddiant cynhwysfawr sy'n berthnasol i rolau gwahanol.</li> </ul>	Bydd polisiau a gweithdrefnau'n cael eu creu, eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Effeithiol	Mae'r polisiau yn y broses o gael eu creu.	Jikke Perry Rheolwr y Practis	Ebrill 2026
-----	--	--	--	--	-------------------------------------	-------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **Jikke Perry**

Teitl swydd: **Rheolwr y Practis**

Dyddiad: **26/02/2026**